Woodland Trust
tree for all
coed i bawb
Coed Cadw

PROSIECT COEDYDD TRAFALGAR

Kent Messenger Group

# Coedydd Trafalgar

www.treeforall.org.uk/trafalgar

Cafodd llawer o goed eu defnyddio i greu HMS *Victory*, un o'r llongau pren enwocaf. Hon oedd banerlong y Llyngesydd Nelson ym Mrwydr Trafalgar yn 1805. Mae Coed Cadw, prif elusen cadwraeth coed Gwledydd Prydain, yn coffáu 200fed pen-blwydd y digwyddiad dramatig hwn ar y môr trwy ymuno â'r Gymdeithas er Ymchwil Forol ac HMS *Victory* i ddathlu'r arwyr nad oes neb yn eu cofio – y coed a hwyliodd i Drafalgar. Heddiw mae pobl ifanc yn helpu Coed Cadw i blannu miloedd o goed newydd fel rhan o ymgyrch Coeden i Bawb. Bydd hon yn creu coedydd newydd, un am bob llong a ymladdodd yn mrwydr Trafalgar.




## Bedwen arian ►

Roedd brigau o'r goeden hardd hon sy'n tyfu'n gyflym yn hyblyg, yn rhad, a digon ohonyn nhw ar gael, ac felly roedden nhw'n gwneud brwsys a 'sgubellau da. Roedden nhw'n cael eu defnyddio'n bennaf gan fechgyn y llongau oedd yn gwneud y gwaith brwnt. Thomas Twichen, 12 oed, oedd y bachgen ieuengaf ar fwrdd y Victory yn y frwydr. Gallwch ddysgu am Thomas a phobl ifanc eraill oedd ar longau Trafalgar trwy fynd i'r wefan.



► 'sgubell

## ◄ Collen

Roedd pren o'r gollen i'w weld yn storfeydd y llong. Gan ei fod yn hyblyg ac yn gryf roedd yn cael ei ddefnyddio i wneud y cylchoedd a gadwai'r casgenni pren wrth ei gilydd. Y casgenni hyn oedd yn dal bwyd fel pys, blawd ceirch, bara, a bwydydd sych eraill. Câi ei ddefnyddio hefyd i wneud y cylchoedd o gwmpas casgenni powdr gwn. Bydd y gollen yn cynhyrchu tyfiant newydd yn gyflym pan fydd ei brigau'n cael eu torri'n ôl. Adeg Trafalgar, roedd coed cyll yn adnoddau rhad a digon ohonyn nhw i'w cael. ►



casgen fwyd

## Ywen ►

Coeden enwog am ei chryfder. Roedd pren o'r goeden fythwyrdd hon i'w weld mewn llefydd gwahanol iawn ar HMS *Victory*. Dan linell y dŵr yn storfa'r saer roedd coesau'r offer wedi'u gwneud o'r ywen. Yn ystafelloedd iachus a golau'r llyngesydd yn starn y llong roedd rhai darnau hardd o ddodrefn Nelson wedi'u gwneud o'r ywen. Roedd pobl yn hoff iawn o liw dwfn, prydferth y pren.



◄ coes bwyell



## ▲ Derwen

'Heart of oak are our ships, jolly tars are our men,' llinellau o gân boblogaidd o'r cyfnod. Roedd angen mwy na 5,000 o goed deri i adeiladu HMS *Victory*, cymaint â 40 hectar (100 erw) o goetir. Daeth y rhan fwyaf o Siroedd Caint a Sussex, ond cafodd peth ei fewnforio. Roedd stori enwog y byddai'r Llyngesydd Collingwood yn llenwi ei bocedi â mes a'u taflu ar wasgar ble bynnag yr âi – ei ffordd i sicrhau cyflenwad da o goed deri yn y dyfodol.





## ◄ Pinwydden yr Alban

Byddai'r mastiau a'r thrawslath wedi'u gwneud o bren pinwydden, ffynidwydden neu sbriwsen. Mae'r coed hyn i gyd yn tyfu'n syth ac yn ystwyth ac ysgafn. Byddai gwaelod trwchus y mastiau wedi'i wneud mewn tair rhan. Ymhob mast roedd rhwng saith a naw coeden lai wedi'u rhwymo ynghyd gan gylchoedd haearn gan fod ychydig iawn o goed unigol o'r trwch hwn ar gael. Roedd yn rhaid mewnforio llawer o'r pren hwn o Fôr y Baltig gan nad oedd digon o binwydd yr Alban ar gael.



llyw'r llong

## Onnen ▲

Mae pren gwelw, lliw hufen yr onnen yn gryf ac yn hyblyg, ac yn dda, felly, i dderbyn ergydion. Cafodd ei ddefnyddio i wneud llyw godidog y llong. Roedd pren onnen i'w gael ar ddeciau'r magnelau (gynnau) hefyd ble'r oedd polion onnen hir yn gwthio'r tanbelenni i'r magnelau ac eraill yn symud y magnelau i'w lle. Pan gafodd y llyw ei ddinistrio yn y frwydr, roedd yn rhaid llywio'r llong trwy ddefnyddio'r llyw bach, hefyd wedi'i wneud o bren onnen, dri dec islaw.



dodrefn

## Ffawydden ►

Mae'r goeden ddeilgoll brydferth hon yn tyfu hyd at 40 metr o uchder (130 troedfedd). Mae'n rhoi pren caled sydd yn hawdd i'w weithio. Graen main iawn sydd iddo, ac fe gâi ei ddefnyddio ar gyfer gwaith pren a dodrefn dan do fel cypyrddau ymolchi, cadeiriau a desgiau. Cysgai Nelson mewn gwely crog rhwng dwy fagnel. Roedd hwn wedi'i wneud o gynfas wedi'i ymestyn dros ffrâm pren. Mewn brwydr câi ystafell Nelson ei chlirio i ymladd, a byddai'n llenwi â mwg wrth i bob magnel danio.



Cist bren

## Poplysen ddu ►

Er mwyn diogelwch, roedd y cetris yn cael eu cario mewn blychau o storfa'r powdwr gwn at y magnelau. Roedd maint y blychau'n amrywio yn ôl y math o getris oedd eu hangen ar gyfer pob magnel. Roedd gofyn iddyn nhw fod yn ysgafn, felly roedd y cistiau silindraidd pren hyn wedi'u gwneud o'r boplysen a chlawr llwyfen arnyn nhw. Ar fwrdd y HMS *Victory* roedd oddeutu 240 o'r 'cistiau pren' hyn. Y 'mwncïod powdr' fyddai'n eu cario, sef bechgyn ifanc ar adegau, ond morwyr hŷn gan amlaf.



capstan

cychod y llong

## Llwyfen ►

Roedd y llwyfen yn werthfawr iawn i adeiladwyr llongau oherwydd nid yw'n pydru mewn dŵr. Roedd cêl y *Victory* a'r estyll pren dan linell y dŵr wedi'u gwneud o bren llwyfen. Câi ei ddefnyddio hefyd i greu blychau o gwmpas y pympiau oedd yn gallu cadw'r llong rhag suddo. Pethau eraill wedi'u gwneud o bren llwyfen oedd y capstan, oedd yn codi angor y llong, a'r cerbydau oedd yn cario'r gynnau mawr.

Graen afreolaidd, cryf sydd i'r math hwn o lwyfen. Gan hynny roedd yn ddelfrydol i wneud estyll ar gyfer cychod y llong am fod modd plygu'r pren. Yn ogystal â chario pobl a nwyddau, byddai'r cychod hyn yn cael eu defnyddio fel cychod tynnu i dynnu'r llong ar ddyddiau pan nad oedd dim gwynt. Doedden nhw ddim yn cael eu hystyried yn gychod achub – pe byddai morwr anffodus yn cwympo dros fwrdd y llong roedd yn annhebyg o gael ei achub. ►



casgenpowdr gwn

## Gwernen ▲

Un o'r peryglon mwyaf ar fwrdd llong oedd powdr gwn. Bydden nhw'n cael powdr gwn trwy falu siarcol wedi'i wneud o'r wernen yn arbennig, ond hefyd o'r fedwen, y gerddinen a'r helygen, a'i gymysgu â swlffwr a solpitar. Roedd powdr gwn i'w gael yn Tseina yn y nawfed ganrif, ond ni ddaeth i Ewrop tan y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn rhyfedd, câi siarcol ei ddefnyddio hefyd i amsugno dŵr yn y magasîn mawr (storfa) i gadw'r powdr gwn yn sych.



'square meal'

## Cerddinen ►

Gellir adnabod y goeden hon wrth y clystyrau amlwg o aeron coch arni bob hydref. Mae'r gerddinen i'w gweld ar hyd Gwledydd Prydain. Ar fwrdd HMS *Victory* roedd defnydd cyffredin o'r pren bob dydd ar gyfer powlenni a phlatiau'r morwyr bob pryd bwyd. Mae'n debyg bod yr ymadrodd Saesneg 'a square meal' yn dod o siâp sgwâr platiau bwyd y llongau. Heddiw defnyddir y gerddinen ar gyfer cerfio a thurnio.

Coed Cadw (The Woodland Trust), Autumn Park, Grantham, Lincolnshire, NG31 6LL. Mae'r logo Coeden i Bawb yn nod masnach Coed Cadw. Elusen gofrestredig Rhif 29344. Cwmni di-elw a gyfyngir trwy warant. Cofrestredig yn Lloegr Rhif 1982873. Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu. Darluniau o'r coed gan Vivien Wilson a'r darlun o HMS *Victory* gan Tony Townsend.

2852 05/05